



2010/11

# Impact report

## Adroddiad effaith



Supporting charities, volunteers and communities  
Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

WCVA is the national umbrella organisation for the third sector in Wales. For over 75 years we have been working with the sector to strengthen communities and change lives.

WCVA yw'r mudiad ymbarél cenedlaethol ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru. Am dros 75 o flynyddoedd rydym wedi bod yn gweithio gyda'r sector i gryfhau cymunedau a newid bywydau.

**WCVA Head Office**  
Baltic House  
Mount Stuart Square  
Cardiff  
CF10 5FH  
Tel 0800 2888 329  
Fax 029 2043 1701  
Minicom  
0808 1804080  
help@wcva.org.uk

**North Wales Office**  
Morfa Hall  
Bath Street  
Rhyl  
LL18 3EB  
Tel 0800 2888 329  
Fax 01745 357541  
Minicom  
0808 1804080  
help@wcva.org.uk

**Mid Wales Office**  
2 Science Park  
Cefn Llan  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 3AH  
Tel 0800 2888 329  
Fax 01970 631121  
Minicom  
0808 1804080  
help@wcva.org.uk

**WCVA Prif Swyddfa**  
Tŷ Baltig  
Sgwar Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FH  
Ffôn 0800 2888 329  
Ffacs 029 2043 1701  
Minicom  
0808 1804080  
help@wcva.org.uk

**Swyddfa Gogledd Cymru**  
Neuadd Morfa  
Stryd y Baddon  
Y Rhyl  
LL18 3EB  
Ffôn 0800 2888 329  
Ffacs 01745 357541  
Minicom  
0808 1804080  
help@wcva.org.uk

**Swyddfa'r Canolbarth**  
2 Parc Gwyddoniaeth  
Cefn Llan  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 3AH  
Ffôn 0800 2888 329  
Ffacs 01970 631121  
Minicom  
0808 1804080  
help@wcva.org.uk

New ways to get involved with WCVA

 **Facebook**

[www.facebook.com/walescva](http://www.facebook.com/walescva)  
'Like' our page for daily updates, photos and discussion.  
Gallwch 'hoffi' ein tudalen gyda newyddion dyddiol, lluniau a sgysiaiu.

 **Blog**

<http://wcva.tumblr.com>  
Insight and comment on sector issues.  
Golwg ar faterion yn ymwneud â'r sector.

Ffyrdd newydd i ymwneud â WCVA

 **Twitter**

[www.twitter.com/walescva](http://www.twitter.com/walescva)  
Stay informed with up-to-the minute news from WCVA and around the sector.  
Cewch y wybodaeth ddiweddaraf pob munud o WCVA a'r sector i gyd.


 **YouTube**

[www.youtube.com/walescva](http://www.youtube.com/walescva)  
Watch interviews and features on the issues that matter.  
Gwylwch gyfweiliadau ac eitemau nodweddiadol ar y materion pwysig.

WCVA Helpdesk | Lein Gymorth WCVA

**0800 2888 329**

[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)



## Contents

The year in brief	2
Chair's report	4
Chief Executive's report	5
1. Services for the sector	6
2. Achieving change	22
3. Resourcing the sector	32
4. The trustees and charity advisors	37
5. Summarised financial statements	38
6. WCVA members	44

All the Volunteers of the Year gathered in Cardiff for the awards ceremony along with the BBC's Derek Brockway, host for the event.

## Cynnwys

Y flwyddyn yn gryno	2
Adroddiad y Cadeirydd	4
Adroddiad y Prif Weithredwr	5
1. Gwasanaethau ar gyfer y sector	6
2. Sicrhau newid	22
3. Adnoddau ar gyfer y sector	32
4. Cyngorwyr yr ymddiriedolwyr ac elusennau	37
5. Crynodeb o'r datganiadau ariannol	38
6. Aelodau WCVA	44

Daeth holl Wirfoddolwyr y Flwyddyn ynghyd yng Nghaerdydd ar gyfer y seremoni wobrwyo gyda Derek Brockway o'r BBC, gŵr gwadd y digwyddiad.



# The year in brief

## Y flwyddyn yn gryno

Enquiries | Ymholiadau

# 18,000

1.5m web visits  
450,000 info sheets  
distributed

1.5m ymweliadau â'r we  
450,000 o daflenni  
gwybodaeth wedi'u  
dosbarthu



Volunteer of the Year | Gwirfoddolwr y Flwyddyn

Joanne Yeo of Llanelli, secretary of the Glanymor and Tyisha Safer Communities Action Group was a winner in the Adult category at the 2011 Volunteer of the Year awards

Joanne Yeo o Lanelli, Ysgrifenyddes Grŵp Gweithredu Cymunedau Diogelach Glanymor a Tyisha oedd enillydd categori'r Oedolion yng ngwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn 2011

# GwirVol

# 240,000

hours of volunteering by  
young people

awr o wirfoddoli gan bobl  
ifanc

Sellers | Gwerthwyr

# 100

on 3to3.org.uk  
ar 3to3.org.uk



Grants and contracts  
Grantiau a chontractau

# £25 million miliwn

managed by the sector, for  
the sector

rheolir gan y sector, ar gyfer  
y sector

CRB checks  
Gwiriadau CRB

# 28,500

for 6,000 organisations  
ar gyfer 6,000 o fudiadau



**communities first**  
cymunedau yn gyntaf

Consultancy and advice to | Ymgynghoriaeth a chyngor i

**92** CF partnerships o bartneriaethau CyG

and | a **76** days training diwrnod o hyfforddi

and **1,000** grants totalling | a **1,000** o grantiau sy'n gyfanswm o

**£3** million miliwn



**I got my job**

**Cefais fy swydd**

Brendan Zyborski got his job at the National Mountaineering Centre, Plas y Brenin, after taking part in WCVA's ILM project

Cafodd Brendan Zyborski ei swydd gyntaf yng Nghanolfan Fynydda Genedlaethol, Plas y Brenin, ar ôl cymryd rhan ym mhrosiect Marchnad Lafur Drosiannol WCVA

**Intermediate Labour Market (ILM) | Marchnad Lafur Drosiannol**

**1,000**

people gained training, work experience and employment

o bobl wedi cael hyfforddiant, profiad gwaith a chyflogaeth

**Employers | Gweithwyr**

**250**

used Recruit3.org.uk

wedi defnyddio Recriwt3.org.uk



Jane Fisher got her job as Office Co-ordinator for Women Making a Difference (WMAD) after seeing it advertised through Recruit3

Cafodd Jane Fisher ei swydd fel Cydlynnydd Swyddfa ar gyfer Merched yn Gwneud Gwahaniaeth ar ôl gweld y swydd yn cael ei hysbysebu drwy Recriwt3

**Future Jobs Fund Cronfa Swyddi'r Dyfodol**

**1,900** jobs o swyddi

for out-of-work young people ar gyfer pobl ifanc ddi-waith

**Engagement Gateway Y Porth Ymgysylltu**

**£14** million miliwn

European funds invested in supporting skills and employability of disadvantaged people

o gronfeydd Ewropeaidd wedi'u buddsoddi i gefnogi sgiliau a chyflogadwyedd pobl ddifreintiedig



## Chair's report

The past year has been a challenging one for WCVA. The third sector continues to face funding concerns as public sector finances remain under severe pressure. To meet these challenges we have sought to streamline our organisation and I look forward to this helping us to maintain the provision of quality services for our members and for those served by the projects we manage directly.

The year has also seen a new Welsh Government take office seeking to encourage better public services through, among other things, improved co-ordination between public service bodies and the third sector. We will have to see how well such partnerships can develop.

Despite the challenges facing the third sector our award schemes for volunteers and voluntary organisations remain a shining light of outstanding achievement and service to so many communities.

Once again I am grateful for all those who encourage and participate in voluntary activities from the staff of WCVA, our county voluntary councils and all of our member organisations in communities throughout Wales.

**Win Griffiths, Chair**

## Adroddiad y Cadeirydd

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un heriol i WCVA. Mae'r trydydd sector yn parhau i wynebu pryderon ariannol wrth i gyllid y sector cyhoeddus aros dan bwysau aruthrol. Er mwyn wynebu'r heriau hyn rydym wedi ceisio ailwampio ein mudiad ac rwy'n edrych ymlaen at i hyn ein helpu i gadw'r ddarpariaeth safonol o wasanaethau ar gyfer ein haelodau a'r rheini a gaiff eu gwasanaethu gan y prosiectau a reolwn yn uniongyrchol.

Eleni hefyd daeth Llywodraeth newydd i rym yng Nghymru gyda'r bwriad i annog gwell gwasanaethau cyhoeddus drwy, ymhlith pethau eraill, gwell gydweithredu rhwng cyrff y gwasanaeth cyhoeddus a'r trydydd sector. Bydd yn rhaid i ni weld pa mor dda y gall partneriaethau o'r fath ddatblygu.

Er gwaethaf yr heriau sy'n wynebu'r trydydd sector mae ein cynlluniau gwobrau ar gyfer gwirfoddolwyr a mudiadau gwirfoddol yn parhau i dynnu sylw at gyraeddiadau a gwasanaethau eithriadol i gymaint o gymunedau.

Unwaith eto, rwy'n ddiolchgar iawn i bawb sy'n annog a chymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol o staff WCVA, ein cynghorau gwirfoddol sirol a phob un o'n mudiadau sy'n aelodau mewn cymunedau ledled Cymru.

**Win Griffiths, Cadeirydd**

## Chief Executive's report

The year covered by this report 2010/11 saw the first overall planned reduction in spending on the sector in over a decade. Many organisations received either no increase or an actual or future cut in their income from government, which when combined with rising prices and pay freezes provides a triple challenge in how to meet growing demand for services with fewer resources and the possibility of having to compete with others to continue to provide the service at all!

During the last year WCVA worked closely with Welsh Government and local government to ensure that funding decisions avoided the easy options of the past where cutting finance for the third sector was the first port of call, and challenged the overzealous use of procurement.

We will continue to be vigilant in ensuring fairness and transparency while helping the sector adjust and prosper within this new climate of regionalisation, mutualism, value for money and income diversification.

**Graham Benfield OBE, Chief Executive**



## Adroddiad y Prif Weithredwr

Yn ystod y flwyddyn dan sylw yn yr adroddiad hwn gwelwyd y cynllun cyntaf i leihau gwariant cyffredinol ar y sector mewn dros ddegawd. Cafodd llawer o fudiadau naill ai ddim cynnydd neu doriad gwirioneddol neu doriad yn y dyfodol yn eu hincwm gan y llywodraeth, sydd, pan gaiff ei gyfuno â phrisiau cynyddol a chyflogai'n rhewi, yn rhoi her driphlyg o ran sut i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau gyda llai o adnoddau a'r posibilrwydd o orfod cystadlu ag eraill i barhau i ddarparu'r gwasanaeth o gwbl!

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae WCVA wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i sicrhau bod penderfyniadau ariannol yn osgoi dewisiadau hawdd y gorffennol lle torri cyllid y trydydd sector oedd y dewis cyntaf, a herio'r defnydd gormodol o gaffael.

Byddwn yn parhau i fod yn wylidwrus wrth sicrhau tegwch a thryloywder wrth helpu'r sector i addasu a ffynnu yn yr hinsawdd economaidd hon o ranbartholi, cydymddibyniaeth, gwerth am arian ac amrywio incwm.

**Graham Benfield OBE, Prif Weithredwr**

# 1 Services for the sector Gwasanaethau ar gyfer y sector

The effectiveness of third sector organisations, volunteers and trustees is at the heart of what we do. That's why one of our enduring roles is to provide first rate support to help them deliver services that benefit thousands of people across Wales every day.

Mae effeithiolrwydd mudiadau'r trydydd sector, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr wrth galon yr hyn rydym yn ei wneud. Dyna pam mai un o'n swyddogaethau parhaus yw darparu cefnogaeth o'r radd flaenaf iddynt er mwyn eu helpu i gyflenwi gwasanaethau sy'n dod â budd i filoedd o bobl bob dydd ym mhob rhan o Gymru.

Cymuned cyd-gymorth yng Nghaerdydd yw Recovery Cymru ar gyfer pobl sy'n gwella neu sydd am wella o broblemau cyffuriau ac alcohol. Maent yn trefnu gweithgareddau grŵp ar gyfer eu cleientiaid, fel casglu sbwriel, beicio, cerdded a garddio. Yn 2010 enillodd y mudiad wobr Rhwydwaith Cymru yn y categori Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

Recovery Cymru is a mutual-aid support community in Cardiff for people in or seeking recovery from drug and alcohol problems. They organise group activities for their clients, such as litter-picking, cycling, walking and gardening. They won a Network Wales Award in 2010 in the Health, Social Care and Wellbeing category.









**Our advice, guidance and support services reached 15 per cent more organisations last year, helping to improve compliance and efficiency, and share best practice**

## General information, guidance and support

*Delegates at WCVA's Public Services Delivery Conference*

*Cynrychiolwyr yng Nghynhadledd Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus WCVA*

- Responding to over **18,000 enquiries**
- Maintaining an up-to-date suite of websites attracting over **1.5million visitors** and nearly **300,000 downloads**
- Working with CVCs and volunteer centres, ensuring over **180 information sheets** are available to the sector, with over **450,000** copies of these downloaded from WCVA, CVC and volunteer centre websites
- Publishing **21 issues** of our magazine *Network Wales* and 24 members' e-briefings
- Organising a programme of **8 conferences and seminars** on subjects of major interest to the sector, attracting **630 participants**
- Maintaining the national database of voluntary and community organisations, holding details of over **31,873 organisations** based or working in Wales
- Providing a third sector recruitment service, [www.recruit3.org.uk](http://www.recruit3.org.uk), used by nearly **250 employers**
- Providing a third sector trading website, [www.3to3.org.uk](http://www.3to3.org.uk) helping charities and social enterprises reach more customers, with almost **100 sellers** now using the site
- Providing a wide range of members' benefits, including discounted services and products - saving our members in excess of **£260,000 annually** – and including computer software, insurance, employment and health and safety services, specialist telecommunications for the sector, payroll services, translation services, and corporate promotional products


### Public service delivery conference

'Just wanted to say a big Thank You for an excellent conference [on public service delivery] yesterday, great speakers throughout. The directors here all found the day really interesting, and the chance to have an input via the world café was a fantastic opportunity, not only to make some

suggestions but to network with

new people and make some key contacts for future partnership working. So, many thanks again to your team at WCVA. Great to be part of it.'

Shirley Yendell, Chief Executive, NewLink Wales



**Y llynedd, manteisiodd 15 y cant yn fwy o fudiadau ar ein cyngor, ein harweiniad a'n cefnogaeth, gan helpu i wella cydymffurfiad ac effeithlonrwydd ynghyd â rhannu arferion gorau**

## Gwybodaeth gyffredinol, arweiniad a chefnogaeth

- Ymateb i dros **18,000 o ymholiadau**
- Cynnal cyfres o wefannau yn cynnwys newyddion diweddaraf gan ddenu dros **1.5 o ymwelwyr**. Yn ogystal, llwythwyd bron i **300,000 o eitemau oddi ar y we**
- Cydweithio â chynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddoli, gan sicrhau bod dros **180 o daflenni gwybodaeth** ar gael i'r sector. Llwythwyd dros **450,000** o gopiâu o'r rhain oddi ar wefan WCVA, gwefannau cynghorau gwirfoddol sirol a gwefannau canolfannau gwirfoddoli
- Cyhoeddi **21 rhifyn** o'n cylchgrawn, *Rhwydwaith Cymru*, a 24 o e-hysbysyddau i aelodau
- Trefnu rhaglen o **8 o gynadleddau a seminarau** ar destunau oedd o ddiddordeb gwirioneddol i'r sector, gan ddenu bron i **630 o gyfranogwyr**
- Cynnal y gronfa ddata genedlaethol o fudiadau gwirfoddol a chymunedol, gan gadw manylion dros **31,873 o fudiadau** sy'n gweithio neu sydd wedi'u lleoli yng Nghymru
- Darparu gwasanaeth recriwtio ar gyfer y trydydd sector, sef [www.recriwt3.org.uk](http://www.recriwt3.org.uk) sy'n cael ei ddefnyddio gan bron i **250 o gyflogwyr**
- Darparu gwefan fasnachu ar gyfer y trydydd sector, sef [www.3i3.org.uk](http://www.3i3.org.uk), er mwyn helpu elusennau a mentrau cymdeithasol i gyrraedd mwy o gwsmeriaid. Mae bron i **100 o werthwyr** yn defnyddio'r wefan erbyn hyn
- Darparu ystod eang o fanteision i aelodau sy'n cynnwys gwasanaethau a nwyddau am bris gostyngol – gan arbed dros **£260,000 y flwyddyn** i'n haelodau. Mae'r rhain yn cynnwys meddalwedd cyfrifiadurol, yswiriant, gwasanaethau iechyd a diogelwch a gwasanaethau cyflogaeth, telegyfathrebu arbenigol i'r sector, gwasanaethau cyflogres, gwasanaeth cyfieithu a nwyddau hyrwyddo corfforaethol

### Cynhadledd cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus

'Dim ond gair bach i ddiolch yn fawr iawn am gynhadledd wych [ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus] ddoe. Roedd y siaradwyr i gyd yn wych. Roedd ein cyfarwyddwyr i gyd o'r farn bod y diwrnod yn wirioneddol ddiddorol. Roedd yn wych i gael y cyfle i gyfrannu drwy'r World Café, nid yn unig o ran gwneud awgrymiadau ond hefyd o ran cael y cyfle i rwydweithio â phobl newydd a gwneud cysylltiadau allweddol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol. Felly, diolch yn fawr unwaith eto i'ch tîm yn WCVA. Mae'n wych cael bod yn rhan ohono.'

Shirley Yendell, Prif Weithredwr, NewLink Cymru





We have delivered new courses, more accreditation and inspired more volunteers, trustees and paid staff to improve and update their skills

## Training services

'A great course, very informative and appropriate to my needs. Very good trainer, very knowledgeable.'

'Overall very informative, I now feel more able to carry out a managerial role.'

- Directly delivering **150 courses (20 new)** to support continuous professional development for those in the third sector workforce in Wales, for **1,300 participants**
- Directly delivering **11 accredited** and endorsed courses for **128 participants**
- Providing training and support to organisations involved in delivering European funded work, through courses in project management, how to tender, risk management and quality assurance
- Supporting CVCs to run a core training programme, Courses for Communities Cymru, through the delivery of **370 courses** in **10 key subject areas**, with **3,600 participants**

'Good governance' is more than a mantra, and we have contributed to the development of trustees' skills, knowledge and confidence



## Trustees and governance

- Responding to nearly **170 trustee enquiries**
- Developing the trustee website, attracting over **31,000 visits** with over **38,000 information downloads**
- Organising a Trustee and Governance conference, Charity Law conference and other seminars, attracting **210 participants**
- Providing monthly e-bulletins for individual trustees, with over **660 recipients**

**Trustee support**  
 'That's fantastic, thanks ever so much for all your help, you've been brilliant!'  
 Julia Dixon, South Riverside Community Development Centre  
 'Thank you so much for your very useful observations on the lease.'  
 Michael Shaw, ASDES



Rydym wedi darparu cyrsiau newydd a mwy o achrediadau ac wedi ysbrydoli mwy o wirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a staff cyflogedig i wella a diweddarau eu sgiliau



## Gwasanaethau hyfforddi

- Rydym wedi darparu **150 o gyrsiau (20 ohonynt yn newydd)** yn uniongyrchol i **1,300 o gyfranogion** er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus unigolion sy'n gweithio yn y trydydd sector yng Nghymru
- Wedi darparu 11 o gyrsiau wedi'u **hachredu** a'u cymeradwyo ar gyfer **128 o gyfranogion**
- Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i fudiadau sy'n ymwneud â darparu gwaith a ariennir gan Ewrop, ar ffurf cyrsiau mewn rheoli prosiectau, sut i dendro, rheoli risg a sicrwydd ansawdd
- Cynorthwyo cyngorau gwirfoddol sirol i gynnal rhaglen hyfforddiant craidd, sef Cyrsiau ar gyfer Cymunedau Cymru, drwy ddarparu **370 o gyrsiau** mewn **10 maes pwnc allweddol**

'Cwrs gwyb, llawn gwybodaeth a phriodol i f'anghenion. Hyfforddwr da iawn, gwybodus iawn.'

'Defnyddiol iawn at ei gilydd. Rwyf yn teimlo'n fwy abl i gyflawni rôl fel rheolwr nawr.'

Mae llywodraethu da yn fwy na mantra, ac mae WCVA wedi cyfrannu at ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder ymddiriedolwyr

## Ymddiriedolwyr a llywodraethu

- Ymateb i bron i **170 o ymholiadau gan ymddiriedolwyr**
- Llunio gwefan i ymddiriedolwyr, gan ddenu dros **31,000 o ymweliadau**. Llwythwyd dros **38,000 eitem o wybodaeth** oddi ar y we yn sgil hyn.
- Trefnu cynhadledd Ymddiriedolwyr a Llywodraethu, cynhadledd ar Gyfraith Elusennau a seminarau eraill, gan ddenu **210 o gyfranogion**
- Darparu e-fwletin misol ar gyfer ymddiriedolwyr unigol, gyda dros **660 o bobl yn ei dderbyn**



### Cymorth i ymddiriedolwyr

'Ardderchog, diolch o galon i chi am eich holl help, rydych wedi bod yn wych!' Julia Dixon, Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon

'Llawer o ddiolch i chi am eich sylwadau hynod o ddefnyddiol ar y les' Michael Shaw, ASDES



We kept volunteering in the public eye, helped more people become volunteers, and played a key role in safeguarding children and vulnerable adults

## Volunteering

- Advertising over **7,100** volunteering opportunities and attracting over **750,000** visitors to [www.volunteering-wales.net](http://www.volunteering-wales.net)
- Promoting good practice in the management of volunteers through the Investing in Volunteers programme, and strengthening its team of assessors by **70 per cent**
- Organising the Volunteer of the Year award scheme, which had nearly **20 per cent** more nominations this year and wider media coverage
- Providing access to criminal records checks for volunteers and staff of voluntary organisations, handling **28,500 disclosure requests** and keeping voluntary organisations up to date on changes to vetting arrangements connected with the Independent Safeguarding Authority and Vetting Barring Scheme
- Supporting over **1,000** young people who received Millennium Volunteer certificates
- Through GwirVol, the youth volunteering partnership facilitated by WCVA, providing grants totalling nearly **£320,00** to **38** projects involving nearly **1,000** young people who provided **60,000** hours of volunteering
- Supporting the recruitment and training of over **2,750** newly recruited volunteers through the Volunteering in Wales Fund, contributing over **310,000** volunteering hours for the benefit of their communities
- Completing the Wales: The Active Community Active grant scheme, which has supported the recruitment of an estimated **27,300** new volunteers over the last four years
- Piloting a new third sector internship programme



'Snowsport Cymru/Wales has been a member of WCVA for many years and has benefited from the services provided for smaller voluntary organisations. In particular, with the introduction of Criminal Record Bureau disclosure checks for our volunteer members, WCVA worked with us to ensure that our membership received the best possible service.'

'The new online (eBulk) application service has proved very effective and offers a much quicker and less costly exercise for all involved. The easy access to expert CRU help just a phone call away means our new CRB checking process is very successful.'

Wendy Petschenyk, Snowsport Cymru/Wales

'Mae Snowsport Cymru/Wales wedi bod yn aelod o WCVA ers sawl blwyddyn ac wedi cael budd o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer mudiadau gwirfoddol bychan. Yn benodol, yn sgil cyflwyno archwiliadau datgelu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer ein gwirfoddolwyr, bu WCVA yn cydweithio â ni i sicrhau bod ein haelodau yn cael y gwasanaeth gorau posibl. Mae'r gwasanaeth gwneud cais ar lein newydd (eSwmp) wedi bod yn effeithiol iawn. Mae'n ddull llawer cynt a llawer llai costus i bawb.'

'Mae'r ffaith fod cymorth arbenigol yr Uned Cofnodion Troseddol ar gael mor rhwydd dim ond drwy godi'r ffôn yn golygu bod ein proses archwilio cofnodion troseddol yn llwyddiannus iawn.'

Wendy Petschenyk, Snowsport Cymru/Wales

Rydym wedi cadw gwirfoddoli yn llygad y cyhoedd ac wedi helpu mwy o bobl i fod yn wirfoddolwyr, a hefyd wedi chware rôl allweddol yn y gwaith o ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed


## Gwirfoddoli

- Wedi hysbysebu dros **7,100** o gyfleodd gwirfoddoli ac wedi denu dros **750,000** o ymwelwyr i [www.gwirfoddolicymru.net](http://www.gwirfoddolicymru.net)
- Hybu arferion da yng nghyswllt rheoli gwirfoddolwyr drwy'r rhaglen Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr, a chryfhau'r tîm o aseswyr **70 y cant**
- Trefnu cynllun gwobrwyo Gwirfoddolwr y Flwyddyn. Cafwyd bron i **20 y cant** yn fwy o enwebiadau eleni a rhoddwyd mwy o sylw i'r cynllun yn y wasg.
- Darparu mynediad at archwiliadau cofnodion troseddol i wirfoddolwyr a staff mudiadau gwirfoddol, gan ddelio â **28,500 o geisiadau am ddatgelu gwybodaeth**. Sicrhau bod mudiadau gwirfoddol yn gwybod am unrhyw newidiadau i drefniadau fetio'r Awdurdod Diogelu Annibynnol a'r Cynllun Fetio a Gwahardd
- Cefnogi dros **1,000** o bobl ifanc oedd wedi derbyn tystysgrifau Gwirfoddolwyr y Mileniwm
- Drwy GwirVol, y bartneriaeth gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc a hwylusir gan WCVA, darparu grantiau gwerth bron i **£320,00** i **38** o brosiectau. Roedd y prosiectau hyn yn cynnwys bron i **1,000** o bobl ifanc a ddarparodd **60,000** awr o wasanaeth gwirfoddol
- Cefnogi recriwtio a hyfforddi dros **2,750** o wirfoddolwyr newydd drwy'r Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru, gan gyfrannu dros **310,000** awr o oriau gwirfoddoli er budd eu cymunedau
- Cwblhau cynllun grantiau Cymdeithas Fyw Cymru sydd wedi cefnogi recriwtio tua **27,300** gwirfoddolwr newydd dros y pedair blynedd diwethaf
- Treialu rhaglen lleoliadau gwaith newydd yn y trydydd sector



We have helped the third sector deal with the continuing impact of the recession and public spending cutbacks, and adopt more sustainable funding practices

## Funding



WCVA's monthly Funding News bulletin

Bwletin misol  
Newyddion Nawdd  
WCVA

- Responding to over **2,200 funding enquiries**, and providing more detailed advice to **320 organisations**
- Securing funding from Big Lottery Fund to accelerate the adoption of sustainable funding techniques and practices in the sector through a new three year project: **Sustainable Funding Cymru – accelerating change**
- Managing the Sustainable Funding Cymru website – [www.sustainablefundingcymru.org.uk](http://www.sustainablefundingcymru.org.uk) – to provide a one-stop funding portal for the sector in Wales on funding and finance options, attracting over **70,000 visitors**, and almost **30,000 document downloads**
- Providing a **tax effective giving advice service**, which offers advice and training on legacy fundraising, gift aid and payroll giving
- Providing a sustainable funding training programme accessed by **242 groups** across Wales, with **7 new courses** and **3 master classes**
- Providing a monthly funding e-bulletin, Funding news, to **1,800 recipients**
- Successfully bidding to manage the support contract for BIG's People and Places grant scheme – the **Better Bids** service, to run from 2011–14

'Timebanking Wales would like to commend 3-SET on the high quality of service they have provided to our organisation. On all occasions they have proved efficient and effective in assisting the progression of our work.'

Geoff Thomas, Chief Executive Officer, Timebanking Wales

- Providing information, advice and training on European Structural Funds through WCVA's third sector Spatial European Team (3-SET). In total, **249 training opportunities** were taken up by **232 individuals** in **123 different organisations**

Mid and West Wales Chamber in Llanelli has received Engagement Gateway funding to promote self-employment to out-of-work young people. One of their projects is supporting two young dancers interested in setting up a dance studio.

Mae Siambr Canolbarth a Gorllewin Cymru yn Llanelli wedi derbyn nawdd gan y Porth Ymgysylltu i hybu hunangyflogaeth ymysg pobl ifanc ddi-waith. Un o'u prosiectau yw cynorthwyo dau ddawnsiwr ifanc sydd â diddordeb mewn sefydlu stiwdio ddawns.







Rydym wedi helpu'r trydydd sector i ddelio ag effaith barhaus y dirwasgiad a'r toriadau i wariant cyhoeddus ac i fabwysiadu arferion cyllido cynaliadwy

## Cyllido

- Ymateb i dros **2,200 o ymholiadau am gyllid**, a darparu cyngor manylach i dros **320 o fudiadau**
- Sicrhau cyllid gan y Gronfa Loteri Fawr er mwyn rhoi hwb i fabwysiadu technegau ac arferion cyllido cynaliadwy yn y sector drwy gyfrwng prosiect tair blynedd newydd: **Cyllid Cynaliadwy Cymru – cyflymu newid**
- Bod yn gyfrifol am wefan Cyllid Cynaliadwy Cymru – sef [www.sustainablefundingcymru.org.uk](http://www.sustainablefundingcymru.org.uk) – er mwyn darparu siop un stop lle gall y sector yng Nghymru gael gwybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael o ran nawdd a chyllid. Denwyd dros **70,000 o ymwelwyr**, a llwythwyd bron i **30,000 o ddogfennau'n oddi ar y we**
- Darparu gwasanaeth cynghori ar roddi treth-ffeithiol, sy'n cynnig cyngor a hyfforddiant ar godi arian trwy gymynroddion, cymorth rhodd a rhoi drwy'r gyflogres
- Darparu rhaglen hyfforddiant cyllido cynaliadwy sy'n cael ei ddefnyddio gan **242 o grwpiau** ym mhob rhan o Gymru, ynghyd â **7 cwrs newydd** a **3 dosbarth meistr**
- Darparu e-fwletin nawdd bob mis, sef Newyddion Nawdd, i **1,800 o bobl**
- **Llwyddo yn ein cais i reoli'r contract cefnogaeth** ar gyfer cynllun grantiau Pobl a Lleoedd y Gronfa Loteri Fawr sef y gwasanaeth Better Bids, i'w gynnal o 2011–14

'Hoffai Timebanking Wales longyfarch 3-SET ar safon uchel y gwasanaeth mae wedi'i roi i'n mudiad. Ar bob achlysur maent wedi bod yn effeithiol ac yn effeithlon iawn wrth ein helpu i ddatblygu ein gwaith.'

Geoff Thomas, Prif Swyddog Gweithredol, Timebanking Wales



- Darparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant ar Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd drwy Dîm Ewropeaidd Gofodol Trydydd Sector WCVA (3-SET). Manteisiodd **232 o unigolion** o **123 mudiad gwahanol** ar **249 o gyfleoedd hyfforddi**



Our research has clearly illustrated the consequences of the cuts on the third sector in Wales, and contributed more case study material on the value and impact of the services delivered by the sector

## Research

- Monitoring the effects of the recession and public sector cuts, with **three surveys** carried out in 2010/11
- **Publishing an almanac** of the third sector in Wales, *The Third sector statistical resource 2011*
- Producing **case studies** of the impact of third sector public services, and on volunteers involved in behaviour change activities and youth volunteering
- **Working in partnership** with Local Government Data Unit – Wales to provide a report on local government support for the sector in the financial year 2009/10, to be published in 2011



- **Developing resources** to help organisations demonstrate their impact to their stakeholders, including an information sheet and training courses to be delivered in 2011/12.
- **Providing an assessment** of the value of voluntary sector hospital to home services in reducing delayed transfers of care and unnecessary admissions to hospital

WCVA's research case study on the hospital to home and other services provided by British Red Cross in Ysbyty Gwynedd, was well received by the Minister for Health, Edwina Hart, who said: 'I would like to take this opportunity to thank the British Red Cross and other third sector organisations which are helping to reduce unnecessary admissions to hospital and prevent discharges from hospital being delayed.'

British Red Cross Director Wales Jeff Collins said: 'This report highlights the importance of close partnerships between the NHS, local authorities and the voluntary sector in providing holistic services. Aside from the efficiencies gained, the improved patient experience, and value for money, this report demonstrates overwhelmingly that long term health is improved as a consequence.'

Cafodd astudiaeth achos ymchwil WCVA ar wasanaeth o'r ysbyty i'r cartref a gwasanaethau eraill y Groes Goch Brydeinig yn Ysbyty Gwynedd dderbyniad da gan y Gweinidog Iechyd, Edwina Hart. Dywedodd: 'Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Groes Goch Brydeinig ac i fudiadau eraill yn y trydydd sector sy'n helpu i leihau derbyniadau diangen i'r ysbyty ac atal oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty.'

Dywedodd Jeff Collins, Cyfarwyddwr y Groes Goch yng Nghymru: 'Mae'r adroddiad hwn yn dangos mor bwysig yw partneriaeth agos rhwng y GIG, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol yng nghyswllt darparu gwasanaethau cyfannol. Ar wahân i'r arbedion effeithlonrwydd a sicrhawyd, y profiad gwell o safbwynt y claf, a'r gwerth am arian a gynigir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn dangos yn ddiymwad bod iechyd hirdymor yn gwella o ganlyniad.'



Mae ein hymchwil wedi dangos yn glir beth yw canlyniadau'r toriadau ar y trydydd sector yng Nghymru, ac mae hefyd wedi darparu mwy o ddeunydd ar gyfer astudiaeth achos ar werth ac effaith y gwasanaethau mae'r sector yn eu cyflenwi

## Ymchwil

- Monitro effaith y dirwasgiad a thoriadau yn y sector cyhoeddus, gan gynnw **tri arrolwg** yn 2010/11
- **Cyhoeddi almanac** o'r trydydd sector yng Nghymru, sef *Adnodd Ystadegol y Trydydd Sector 2011*
- Lluoio **astudiaethau achos** ar effaith gwasanaethau cyhoeddus y trydydd sector ac effaith gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau newid ymddygiad a gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc
- **Gweithio mewn partneriaeth** ag Uned Data Llywodraeth Leol Cymru

i ddarparu adroddiad ar gefnogaeth llywodraeth leol i'r sector ym mlwyddyn ariannol 2009/10, i'w gyhoeddi yn 2011

- **Creu adnoddau** i helpu mudiadau ddangos eu heffaith i'w rhanddeiliaid, gan gynnwys taflen wybodaeth a chysiau hyfforddi i'w darparu yn 2011/12.
- **Darparu asesiad** o werth gwasanaethau o'r ysbyty i'r cartref y sector gwirfoddol o ran lleihau oedi yng nghyswllt trosglwyddo gofal a derbyniadau diangen i'r ysbyty





We provided tailored advice and training programmes to support Communities First partnerships, which helped them make real improvements to the lives of thousands of people living in some of the most deprived communities across Wales

## New initiatives and community development

- Providing **76 days training** for Communities First partnerships
- Providing consultancy advice and support to **92 Communities First partnerships**
- Providing over **1,000 grants** totalling nearly **£3m** from the Communities First Trust Fund
- In partnership with Community Development Cymru and Centre for Regeneration Excellence Wales, putting forward proposals for the future of the Communities First programme, *Communities First - The Way Forward*
- Through the Wales Africa Community Links Grants Scheme, distributing **£60,000** in small grants to Wales-based groups to stimulate good practice in developing links between communities in Wales and Africa



Beverly Moseley and Sharon Jones of Higher Shotton Communities First in Flintshire who received audit and annual work-plan guidance from our Communities First advice and support service

'The advisor's input was received extremely well by partnership board members and staff, his knowledge of the process was excellent; he also had a very good understanding of the roles of the staff and board, he was encouraging and supportive throughout the process.'

'This has been a very tough time for us, but with the support and guidance from the WCVA we feel that we are moving forward in a positive manner.'

School walking bus initiated by Llwynhendy Communities First to promote safe routes to school, led by Aunty Batty, a character designed by local children to lead the way

Bws cerdded i'r ysgol a ddechreuwyd gan Cymunedau yn Gyntaf Llwynhendy i hyrwyddo llwybrau diogel i'r ysgol, dan arweiniad Anti Batty, cymeriad a luniwyd gan blant lleol i arwain y ffordd



**Aethom ati i gynnig cyngor a rhaglenni hyfforddi oedd wedi'u teilwra'n arbennig i gynorthwyo partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a roedd hyn wedi eu helpu i wneud gwelliannau go iawn i fywydau miloedd o bobl a oedd yn byw yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru**

## Mentrau newydd a datblygu cymunedol

- Darparu **76 niwrnod** o hyfforddiant i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf
- Darparu cefnogaeth a chynghor ymgynghori i **92 o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf**
- Darparu dros **1,000 o grantiau**, gwerth bron i **£3m**, o Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf
- Mewn partneriaeth â Datblygu Cymunedol Cymru a Chanolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru, darparu cynigion ar gyfer y dyfodol yng nghyswllt rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, sef *Cymunedau yn Gyntaf – Y Ffordd Ymlaen*
- Drwy Gynllun Grantiau Bach Cysylltiadau Cymunedol Cymru-Affrica, rhoi **£60,000** mewn grantiau bach i grwpiau yng Nghymru er mwyn ysgogi arferion da o ran datblygu cysylltiadau rhwng cymunedau yng Nghymru ac Affrica

*Our storybook of real lives being changed by communities identifying their own priorities and developing their own solutions*

*Ein llyfr stori o fywydau go iawn yn cael eu newid gan gymunedau yn nodi eu blaenoriaeth eu hunain ac yn datblygu eu hatebion eu hunain*

Beverly Moseley a Sharon Jones, Cymunedau yn Gyntaf Higher Shotton yn Sir y Fflint, a dderbyniodd arweiniad ar archwiliad a chynllun gwaith blynyddol gan ein gwasanaeth cymorth a chynghor ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf

'Cafodd mewnbwn y cynghorydd dderbyniad da iawn gan staff ac aelodau o fwrdd y bartneriaeth. Roedd ei wybodaeth am y broses yn ardderchog. Roedd ganddo hefyd ddealltwriaeth dda iawn o rôl y staff a'r bwrdd ac roedd yn ein cefnogi a'n hannog gydol y broses.'

'Mae hwn wedi bod yn gyfnod anodd iawn i ni, ond, gyda chymorth ac arweiniad WCVA, teimlwn ein bod yn symud ymlaen mewn modd cadarnhaol.'







We have made sure that decision-makers understand the contribution that the sector makes to improving lives, communities and the environment, and supported the sector's involvement in policy development and implementation

## Policy consultation, representation and partnership

- **Maintaining up-to-date details** of current policy issues and consultations at Wales, UK and European levels on WCVA's national website
- Organising **12 regional policy events** and other policy meetings, attracting over **700 participants**, to discuss policy issues of interest to the sector
- Publicising over **300 policy consultations** through the weekly consultation bulletin
- Preparing **34 responses** highlighting third sector interest and concerns
- **Facilitating the sector's engagement** with the Welsh Assembly Government through the Third Sector Scheme, Partnership Council and ministerial meetings
- **Ensuring** that the sector has **representation** on major Welsh Government partnerships and working groups
- **Facilitating third sector networks** concerned with equalities and human rights, substance misuse, community justice, and health, social care and well-being
- **Promoting good practice** in working arrangements between the sector and local authorities, and monitoring the effectiveness of local compacts
- **Promoting partnerships** between new local health boards and the third sector





Rydym wedi parhau i gynorthwyo'r trydydd sector i sicrhau newid cadarnhaol yng nghyswllt pobl a chymunedau Cymru mewn pedwar maes gweithgaredd pwysig lle rydym wedi dylanwadu ar bolisi ac wedi creu effaith barhaol

First Minister Carwyn Jones at our 2010 annual conference

Y Prif Weinidog Carwyn Jones yn ein cynhadledd flynyddol yn 2010

## Ymgynghori ynghylch polisi, cynrychiolaeth a phartneriaeth

- **Sicrhau bod y manylion diweddaraf** am faterion polisi cyfredol ac am ymgynghoriadau ar lefel Cymru, y DU ac Ewrop ar gael ar wefan genedlaethol WCVA
- Trefnu **12 o ddiwyddiadau polisi rhanbarthol** a chyfarfodydd polisi eraill, gan ddenu dros **700 o gyfranogwyr**, i drafod materion yn ymwneud â pholisiau a oedd o ddiddordeb i'r sector
- Rhoi cyhoeddusrwydd i dros **300 o ymgynghoriadau** polisi drwy'r bwletin ymgynghori wythnosol
- Paratoi **34 o ymatebion** a oedd yn rhoi sylw i ddi-ddordebau a phryderon y trydydd sector
- **Hwyluso ymgysylltiad y sector** â Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy Gynllun y Trydydd Sector, y Cyngor Partneriaeth a chyfarfodydd â gweinidogion
- **Sicrhau** bod y sector yn cael ei gynrychioli ym mhrif bartneriaethau a gweithgorau Llywodraeth Cymru
- **Hwyluso rhwydweithiau yn y trydydd sector** sy'n ymwneud â chydarddoldeb a hawliau dynol, camddefnyddio sylweddau, cyfiawnder cymunedol ac iechyd, gofal cymdeithasol a lles
- **Hybu arferion da** mewn trefniadau gweithio rhwng y sector ac awdurdodau lleol, a monitro effeithiolrwydd compactau lleol
- **Hyrwyddo partneriaethau** rhwng byrddau iechyd lleol newydd a'r trydydd sector

WCVA Chair Win Griffiths and Dame Suzi Leather, Chair of the Charity Commission, at our 2010 annual conference

Cadeirydd WCVA Win Griffiths a'r Fonesig Suzi Leather, Cadeirydd y Comisiwn Elusennau, yn ein cynhadledd flynyddol yn 2010



## 2 Achieving change Sicrhau newid

**We have continued to support the third sector to achieve positive change for people and communities in Wales through four major areas of activity where we have influenced policy, secured resources and created lasting impact**

Elika Williams, 19, is now in permanent employment at Caia Park Partnership after participating in WCVA's Intermediate Labour Market (ILM) project.

Mae Elika Williams, sy'n 19 oed, bellach wedi cael gwaith parhaol gyda Phartneriaeth Parc Caia ar ôl cymryd rhan ym mhrosiect Marchnad Lafur Drosiannol (MLD) WCVA.

